YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] TACHWEDD, 1881. [RHIF 3.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

A YDYM NI, UNDODIAID, YN GWNEYD EIN GOREU?

UN o'r arwyddion mwyaf calonogol o gynnydd Undodiaeth a ddygir yn aml i sylw cyhoeddus, yw lledaeniad golygiadau rhydd am grefydd yn mhlith y sectau uniawngred, a'r derbyniad croesawgar a roddir i lawer o'n syniadau gan y pregethwyr mwyaf poblogaidd perthynol braidd i bob cyfundeb o Gristionogion. Mae y cyflwr yma o bethau yn sicr yn foddhaol iawn, ond wedi'r cwbl ychydig iawn o aelodau newyddion sydd yn dyfod i gyssylltiad â'n Eglwysi mewn canlyniad i hyny. Mae y Cristion uniawngred sydd mor barod i gyfaddef wrthych, fod ei gred yn agos, os nad yn gwbl, yr un â'ch cred eich hunan, yn parhau i roddi dylanwad ei bresenoldeb a'i arian i'r addoliad iawnffyddol; ac mae y pregethwr sydd yn traethu syniadau Undodaidd *yn* y pwlpud yn ofalus i ddangos ei annghymmeradwyaeth i'r sect Undodaidd tu allan iddo. Fel yr aderyn sydd yn dyfod i mewn ar ei aden trwy eich ffenestr agored, yn pigo i fyny ychydig friwsion, ac yna yn ehedeg ymaith, felly mae y crwydryn Trindodaidd yn troi i mewn i un o'n capeli, yn mwynhau yn lladradaidd y blasusfwyd a osodir ger ei fron, ac yna mae yn myned allan i beidio dychwelyd mwy. Oddiwrth elfenau ansefydlog a difianol fel yna, nis gallwn wrth gwrs, dynu rhyw lawer o nerth i'n hachos, felly gadewch i ni droi at y sylfaen sefydlog a sylweddol, ar yr hon mae ein Heglwys wedi ei hadeiladu, sef, y sêl a'r hunan-aberth a ddangosir gan y rhai ydynt wedi proffesu yn agored ei hathrawiaethau, ac wedi uno â'i rhengoedd fel aelodau. Gallasem dybied na fyddai dyn ar ol unwaith brofi ei ddidwylledd trwy herio gwaradwydd y byd, a thaflu ei goelbren yn wrol gydag achos mor anmhoblogaidd ag Undodiaeth—yn hebgor un ymdrech i ddangos ei sêl a'i ddifrifoldeb i gynnal yr achos oedd mor anwyl iddo. I'r dyben yma mae gweinidogaeth ddysg-

edig yn anhebgorol angenrheidiol yn ein henwad ni i fesur helaethach nag mewn un enwad arall. Mae yr Ymneillduwyr uniawngred yn gosod mwy o bwys ar y tafod parod, y parabliad llithrig o ymadroddion ysgrythyrol nag ar gyrhaeddiadau sylweddol y meddwl; ac yn yr Eglwys Sefydledig mae y bregeth yn cael ei hystyried yn fater ail-raddol yn y gwasanaeth, gan mai ffurf-weddiau gyda swynion cerddoriaeth a defod sydd yn gwneyd i fyny y rhanau pwysicaf. Ymddengys mai y syniad offeiriadol yw nas gall y gweddiau gael eu hoffrymu gan neb ond yr offeiriad ordeiniedig, tra y gall y bregeth, gan mai cyfansoddiad o eiddo'r meddwl ydyw, gael ei hysgrifenu gan rywun. A dywedir wrthyf gan bersonau sydd yn mynychu yr Eglwys fod y pregethau yn awr yn gyffredinol yn wan ac yn dlawd iawn, ac mai y genadwri sydd yn rhedeg fel edefyn trwy y rhan fwyaf o honynt yw "ufuddhewch i'r Eglwys." Nis gall y fath gyfansoddiadau gael eu goddef mewn capeli Undodaidd. Mae'n rhaid i'r gweinidogion o ran cyrhaeddiadau meddyliol fod cyfuwch â'r mwyaf diwylliedig yn eu cynnulleidfaoedd, er mwyn sicrhau eu presenoldeb a'u sylw o Sul i Sul. Oblegyd dyma gareg sylfaen yr adeiladwaith ardderchog o dan yr hon yr ydym yn addoli, fod yn rhaid i gynnydd er rhyddid meddyliol a moesol fyned bob amser law yn llaw. Pa un a ydym ni fel lleygwyr Undodaidd yn gwneyd ein dyledswydd i gynnal ein gweinidogion neu beidio sydd yn ymddangos i mi yn amheus, ac ar y mater yma mi a ddyfynaf rai sylwadau o bapyr a anfonais i'r "*British and Foreign Unitarian Association*," yn y flwyddyn 1880. Ar ol cyfeirio at y cyflogau annigonol a delir i'n gweinidogion yn Neheudir Cymru, mae'r ysgrifenydd yn myned yn mlaen fel y canlyn:—

"Fe ddichon i dlodi y wlad, ac ansawdd y cynnulleidfaoedd, y rhai a wneir i fyny gan mwyaf o ffermwyr bychain, siopwyr, crefftwyr, a llafurwyr, gyfrif i fesur mawr am y cyflogau bychain a delir i'r gweinidogion, ond mae'r sefyllfa yma o bethau i fesur helaeth yn ddyledus i sêl ac haelfrydedd sylfaenwyr a phregethwyr boreu Ariaeth ac Undodiaeth yn Sir Aberteifi. Yn y sir hono, rhyw ganrif yn ol, cafodd Undodiaeth ei lledaenu gan ddynion dysgedig a selog y rhai ni ofalent ond ychydig am dâl oddiwrth eu cynnulleidfaoedd, oblegyd yr oeddent yn gallu gwneyd bywiolaethau da wrth eu hysgolion dyddiol, y rhai oeddent ar yr amser hwnw y goreu yn y wlad. Yr oedd yr ysgolion hyn yn cynnyg manteision addysg glasurol a gwyddonol am bris rhesymol i bob dosparth a chredo; ac mae yn rhaid fod ganddynt ddylanwad mawr i ledaenu ein syniadau. O herwydd y cyfleusderau a estynir i bregethwyr ieuainc yn y Coleg Presbyteraidd yn Nghaerfyrddin, mae cenedlaethau dylynol o weinidogion wedi cadw i fyny glod yr ysgolion yma hyd y dydd presenol. Yn y blynyddoedd diweddaf yma, mae y *Board Schools* y rhai ydynt mor gyffredin yn Neheudir Cymru, wedi symmud ymaith yr angenrheidrwydd am yr ysgolion hyn, ac nid oes gan lawer o'n gweinidogion ni ychydig neu ddim i ymddybynu arno heblaw yr hyn a dderbyniant oddiwrth eu cynnulleidfaoedd. Pa faint yw y cyflogau a dderbyniant, yr wyf wedi gwneyd pob ymofyniad posibl er cael gwybodaeth, ac mi geisiaf yn awr grynhoi ffrwyth fy ymchwiliadau. Yn yr *Unitarian Almanac*, mae 32 o leoedd addoliad yn cael eu

rhoddi yn Neheudir Cymru. A gadael allan dri o honynt,—Abertawe, Merthyr Tydfil, ac Aberdar,– y rhai ydynt yn achosion Seisnig, mae yn amlwg 29, o'r rhai mae 10 wedi eu cyfleu yn Sir Forganwg. Oddiwrth 3 o'r rhai hyn ni chefais ateb, ac oddiwrth un arall cefais ateb oddiwrth ficer y plwyf, (i law yr hwn yn debyg y daeth fy ail lythyr) yn dweyd nad oedd un gweinidog Undodaidd yn byw yno, ond ei fod yn credu fod rhywun yn dyfod yno unwaith neu ddwy yn y flwyddyn. A gadael heibio y 4 hyn mae'n aros chwech o gynnulleidfaoedd o dan bump o weinidogion gyda chyflog ar y cyfartaledd i bob gweinidog o £65 y flwyddyn. Trown yn awr at Siroedd Aberteifi a Chaerfyrddin. Yn ol yr *Almanac* mae 19 o gapeli wedi eu cyfleu yn y siroedd hyn; o'r rhai yma mae un wedi ei gau oddiar yr anhawsder i ddyfod ato o herwydd pellder, &c.; ac nid oes gan 3 ereill weinidogion sefydlog na chyfarfodydd rheolaidd. Mae gan y 15 capel gweddill eisteddleoedd i yn agos i 3,200, ac mae yr *average attendance* yn nghylch 1,300, rhif y cymmunwyr yn nghylch 770, a'r cyfanswm a delir gan y cynnulleidfaoedd hyn i'w gweinidogion yn nghylch £258 ar y cyfartaledd o £17 oddiwrth bob capel. Mae llawer o'r gweinidogion yn gwasanaethu rhagor nag un o gynnulleidfaoedd. Mae gan un gweinidog dri o gapeli, mae'n trafaelu 15 milldir bob Sul, yn pregethu dair gwaith, ac yn derbyn £74 y flwyddyn; mae gan un arall ddau gapel, yn trafaelu 20 milldir, yn pregethu dair gwaith, ac yn derbyn £52. Mae gan un arall ddau gapel, mae yn trafaelu 11½ o filldiroedd, ac yn derbyn £26. Mae gan un arall ddau o gapeli, mae yn trafaelu 9 milldir, yn pregethu ddwy waith, ac yn derbyn £16. Bu raid i'r gweinidog hwn am un flwyddyn drafaelu 20 o filldiroedd bob Sul; ac yn ystod y naw mis diweddaf, tra yr oedd ef yn sâl, yr oedd gweinidog arall a gymmerodd ei waith i fyny yn gorfod trafaelu 25 o filldiroedd. Yn y gosodiad uchod, nid wyf wedi gwneyd un cyfrif o *grants* ac *endowments*; ond mor bell ag y gallaf gael allan, nid oes ond un *endowment* o £12; ac nid wyf yn meddwl fod y *grants* i gyd i'r ddwy sir yn llawer mwy nâ £50. Mae y ffeithiau uchod yn siarad drostynt eu hunain, ac nid oes eisieu ymhelaethu; ac mae'n hawdd casglu oddiwrthynt fod parhad yr achos Undodaidd yn Neheudir Cymru mewn perygl dirfawr. Pa farn bynag y dichon i ni ffurfio yn nghylch y cynnulleidfaoedd, mae ymddygiad y gweinidogion yn deilwng o bob cymmeradwyaeth. Ar bob tywydd, ar hyd pob math o ffyrdd, mewn ardaloedd gwyllt a mynyddig, maent wedi gweithio yn ffyddlon ac yn selog; ac mae llawer o achlysuron megys angladdau, &c., pan y gelwir am eu gwasanaeth yn ystod yr wythnos ac mae ganddynt lawer o filldiroedd i drafaelu er mwyn ei gyflawnu."——"Ei bod hi yn bosibl i gael dynion diwylliedig o gwbl i ymgymmeryd â bywyd caled fel hwn am mor ychydig o dâl sydd i mi yn destyn syndod, ac nid yw ryfedd yn y byd fod nifer y myfyrwyr ar gyfer y weinidogaeth Undodaidd yn Ngholeg Caerfyrddin wedi myned mor ychydig yn ystod y blynyddau diweddaf. Yr unig ryfeddod yw fod yno neb o gwbl."

Y cwestiwn yw sut mae gwella y sefyllfa yma o bethau, oblegyd gwella sydd raid, os ydym ni am barhau i fod yn allu bywiol yn

mhlith yr Enwadau ereill yn Nghymru. Nis gall y gweinidogion eu hunain symmud yn y mater yma. Rhaid iddynt barhau i ddyoddef ac i hanner newynu, neu ynte ymollwng yn raddol i alwedigaethau mwy ennillfawr. Arnom ni leygwyr mae'r ddyledswydd yn naturiol yn gorphwys, a genym ni y caiff ei chyflawnu yn gymhwys yn ol mesur ein sêl, ein bywiogrwydd, a'n cyfraniadau. Nis gallaf feddwl ein bod yn awr yn gwneyd ein dyledswydd hyd eithaf ein gallu a'n cyfleusderau. Yr ydym wedi gosod safon ein casgliadau a'n cyfraniadau yn rhy isel. 'Rwyf yn cofio iddi syrthio unwaith ar fyfyriwr oedd newydd ddyfod o un o'n cynnulleidfaoedd gwledig i'r dref, i fyned oddiamgylch gyda'r *plate* i dderbyn cyfraniadau yr aelodau ar ol y cymmundeb. Darfu i un aelod yr hon oedd yn arfer gosod ei swllt ar y *plate* fel ei chyfran wneuthur felly y tro hwnw, ac er mawr syndod iddi, dyma'r myfyriwr yn mhen ychydig yn dychwelyd iddi un geiniog ar ddeg o newid. Ceiniog yn amlwg oedd yr offrwm arferol gartref, ac yr wyf yn ofni nad yw'r safon isel yma ddim yn eithriadol. Fe allasai prif ddynion pob cynnulleidfa alw cyfarfod o'r aelodau neu trwy foddion ereill alw eu sylw at y mater yma gyda'r dyben o annog pawb i ddyblu neu o leiaf i ychwanegu at eu cyfraniadau, neu fe allasai rhes o gyfarfodydd gael eu trefnu gan oruchwylwyr lleygol (*lay agents*), ac nid wyf yn amheu na fuasai apeliadau o'r fath yn cario dylanwad mawr gyda hwy. 'Does dim ag sydd yn llygru ac yn dirywio cynnulleidfa yn gyflymach nag esgeulusdod a diofalwch mewn casglu a chyfranu. Yr wyf yn gwybod am gynnulleidfa a fu am lawer o flynyddau yn mwynhau gwasanaeth rhydd ddigost gweinidog enwog, gyda'r canlyniad hwn, i lawer o honynt ar ei farwolaeth adael y capel i beidio dychwelyd yno mwy. Rhai blynyddoedd ar ol hyny darfu i aelodau yr un gynnulleidfa, mewn ateb i apel a wnaed iddynt danysgrifio swm *respectable* i gynnal eu gweinidog, ac maent wedi parhau i wneyd hyny er mai ychydig ydynt. Ac nid wyf yn amheu na fuasai yr un llwyddiant yn canlyn apeliadau tebyg. Mae ein cynnulleidfaoedd yn sicr o fod yn gweled ac yn teimlo yr angenrheidrwydd o gynnal eu gweinidogion, ac nid oes eisieu ond dechreu symmud er sicrhau llwyddiant. Yn ddiamheu bydd Golygydd yr YMOFYNYDD yn barod i agor ei golofnau i lythyrau ar y mater yma, ac mae yn rhaid fod llawer iawn o aelodau ein capeli yn fwy galluog nâ mi i awgrymu cynlluniau neillduol i gario'r peth allan. Yn y cyfamser, mae'n rhaid i ni, fel y peth blaenaf, wneyd ein goreu i *gynnal ein lle ein hunain o addoliad* hyd eithaf ein gallu, ac fe ddaw ereill yn fuan i ganlyn ein esiampl.

Caerfyrddin. J. HUNTON SMITH.

["Priodol yw dweyd mai cyfieithad ydyw'r uchod, gan nad yw Mr. Smith yn medru'r Iaith Gymraeg."—Hyd yma, gan y Cyfieithydd, i'r hwn yr ydym yn ddiolchgar am ei wasanaeth. Dymunwn ychwanegu y bydd colofnau yr YMOFYNYDD yn agored i ymdrin â'r pwnc dyddorol hwn, a gobeithiwn y daw rhyw les i'r achos trwy hyny.—GOL.]

YR YMYL GOLEU.

Ar waelod dyffryn isel dan leni niwl yn gudd,
Yn ddystaw ac yn dawel yr wylai menyw brudd;
Ymddyrchai cribog greigiau uwchlaw ei chartref hi,
A thrwy ei chalon treiddiai eu cysgod tywyll du.

Ni ddygai haul y boreu lawenydd iddi byth,
A'r hwyrnos teg ni adai un heddwch yn ei nyth;
Ei hoff ddaearol drysor, i ffwrdd y dygwyd hwy,
Ni fynai ei chysuro, can's O, nid oeddynt mwy.

Un dydd uwch ben pan chwythai yn irad, storom ddu,
Daeth un i ofyn cysgod at ddrws ei bwthyn hi;
Un santaidd, tawel, ffyddiog, a thros ei fywyd ef
Ymdaenai rhyw swyn heulog fel tesog wenau nef.

Fe geisiodd dd'wedyd wrthi am ddysglaer wyrddlas nen
Sydd hwnt i'r storm yn t'wynu, yn hardd a theg uwch ben;
"Nis gallaf wel'd" medd hithau, "yr ymyl goleu cu;
Tywyllion yw'r cymmylau, disail eich ffydd i mi."

"O, dewch" medd yntau, "i fyny o'r bwthyn tywyll bach,
A dringwch lethrau'r mynydd i afael awel iach."
A dringo i fyny wnaethant, y dyn a'r ddynes dlawd,
Ac wele o gopa'r mynydd golygfa hyfryd gawd—

Y cymmyl ymddangosent mor dywyll ar y llawr,
Yn ngoleu'r haul dywynent yn ddysglaer iawn yn awr;
Daeth golwg newydd iddi oddiar ei huchel fan—
Ymylon y goleuni'n tywynu yn mhob man.

Ac felly, ein holl drallod, ein gofid, poen a chur,
Bydd fel bo ein sefyllfa, yn dywyll neu yn glir;
Os wrth y ddaear glynwn, cawn niwl a th'wyllwch du;
Ond cawn yr *ymyl goleu* o'r nefol fanau fry.

Tachwedd 13, 1880.

YCHYDIG O HANES JOSEPH.

Y MAE y gwahanol gymmeriadau y sonir am danynt yn y Beibl yn deilwng o'n sylw a'n myfyrdod. Cofnodir rhagoriaethau rhai o'r cymmeriadau er mantais i ni eu hefelychu yn yr hyn sydd dda a rhinweddol; tra y nodir beiau ereill mewn trefn i ni gael eu gochelyd. Rhaid cydnabod nas gallwn ddarllen hanes yr un o'r cymmeriadau hyn hefyd, heb deimlo fod yna ddyddordeb mawr ynddynt. Yn mhlith yr amrywiol gymmeriadau sydd â'u hanes yn britho tudalenau y Beibl, yr ydym yn cael Joseph, fel Saul yn Israel, mewn llawer ystyr, yn uwch o'i ysgwyddau nâ'i frodyr. Mab ydoedd Joseph i Jacob, yr hwn a gafodd o'i anwylyd Rahel: Gen. xxx. 22, 25. Dywed yr hanes wrthym fod Jacob yn fwy hoff ganddo Joseph, nâ'i holl feibion; a hyny am mae efe oedd mab ei henaint ef; a dywedir fod Jacob o herwydd hyny wedi gwneuthur siaced fraith iddo fel arwydd o'i serch a'i anwyldeb tuag ato. Pan ddaeth y brodyr ereill i ddeall fod Joseph yn cael ei garu yn fwy nâ hwynthwy, y maent yn digio wrtho, ac yn ei gasbau i'r fath raddau fel na fedrent ymddyddan ag ef yn heddychol: Gen. xxxvii. 4. Darfu i'r casineb a'r digofaint hwn o eiddo ei frodyr tuag ato gynnyddu i'r fath raddau, nes iddynt ar ryw ddiwrnod benderfynu ei ladd. Ond er iddynt benderfynu ei ladd unwaith, llwyddodd Reuben i ddylanwadu arnynt i beidio, a gan hyny, fe ddarfu iddynt benderfynu yr ail dro i'w werthu i fintai o Ismaeliaid, y rhai oedd ar eu taith o Gilead i'r Aifft; ac felly y gwnaethant. Ond mewn trefn i dwyllo Jacob, a'i gadw mewn anwybodaeth o'r hyn a ddygwyddai i'w fab, y maent yn lladd myn gafr, yn trochi siaced eu brawd yn ei waed, ac yn dychwelyd yn ol â'r siaced at eu tad, gan ddywedyd, "Hon a gawsom: myn wybod yn awr, ai siaced dy fab yw hi, ai nage." Fe ddarfu i Jacob adnabod y siaced, oblegyd dywedodd, "Siaced fy mab yw hi, bwystfil drwg a'i bwytaodd ef: gan larpio y llarpiwyd ef." Parodd hyn lawer o ofid i Jacob, oblegyd yr oedd yn teimlo ac yn credu ei fod wedi colli yr un mwyaf anwyl yn y teulu. Y lle nesaf yr ydym yn cael Joseph yw yn yr Aifft, wedi ei werthu i Putiphar, tywysog Pharaoh a'r distain.

Tra bu Joseph fel dyeithr-ddyn yn ngwlad yr Aifft, yr oedd rhagluniaeth ddwyfol y Duw anfeidrol yn gwylio ei holl symmudiadau; oblegyd nid hir y bu Joseph yno cyn ennill serch ac ymddiriedaeth ei feistr; yr hwn a ymddiriedodd ei dŷ iddo. Dywedir i Joseph ar ol hyny, pan achwynid arno ar gam gan ei feistres, i gael ei fwrw i'r carchar hwnw, yn mha un y llwyddodd i ennill ffafr yn ngolwg penaeth y carchardy, yr hwn a ymddiriedodd yr holl garcharorion ereill i'w ofal ef: Gen. xxxix. 19, 23. Yr oedd yn mhlith y carcharorion hyn oedd dan ei ofal ddau ddyn neilldiol, sef Bwtler a Phobydd Pharaoh. Breuddwydiodd y ddau hyn yn y carchar, a deonglwyd eu breuddwydion gan Joseph, yr hwn a wnaeth hyny yn iawn; oblegyd daeth pethau i ben yn unol â'i ddywediadau: Gen. xl. Fe ddarfu i Pharaoh yn agos tua'r un amser freuddwydio dau freuddwyd yr un noson, y rhai, nis medrai neb eu deongli. Ond wedi methu cael neb i'w deongli, cofiodd y Bwtler am Joseph, yr hwn a alwyd i fewn i'r presenoldeb breninol. Deonglodd Joseph y breuddwydion, gan eu priodoli i saith mlynedd o lawnder a saith mlynedd o newyn yn ngwlad fawr yr Aifft. Wedi i Joseph ddeongli y breuddwydion, cynghorodd Pharaoh i fod yn ddoeth, trwy osod swyddogion yn amser y llawnder i drysori peth o'r ymborth erbyn y saith mlynedd newyn. Gwrandawodd y Brenin ar ei gynghor, gan ei ddwyn i weithrediad trwy osod Joseph ei hun i lywodraethu a gofalu am amgylchiadau y wlad, trwy drysori erbyn y newyn, &c.

Yr ydym erbyn hyn, ynte, yn canfod fod yr hwn ag oedd wedi ei werthu fel caethwas gan ei frodyr—yr hwn ag oedd ei dad yn galaru ar ei ol fel un wedi marw, wedi ei gyfodi yn mhen ychydig o flynyddau i fod yn brif-weinidog yn yr Aifft. Daeth amser y llawnder a'r newyn i ben yn ol dywediadau Joseph; a gofalodd yntau yn amser y llawnder i drysori ar gyfer y newyn. Y mae y newyn pan yn dechreu yn ymddangos yn oerllyd iawn yr olwg, gan ei fod, megys yn ysgymygu ei ddannedd ar holl dlodion y wlad, trwy beri iddynt fyned i'r Aifft i ymofyn am foddion eu cynnaliaeth.

Yn mhlith y llawer a gyrchasent yno i ymofyn ŷd, yr oedd brodyr Joseph i gyd, gyda'r eithriad o Benjamin bach, yr hwn oedd wedi ei gadw gartref gan ei dad. Adnabyddodd Joseph hwynt, ac ymddyeithriodd wrthynt, gan ddywedyd, mai

"Ysbiwyr" oeddynt, "yn dyfod i edrych noethder y wlad." Ceisiai ei frodyr ei argyhoeddi, mai nid ysbiwyr oeddynt, ond eu bod yn ddynion trwyadl, onest, a didwyll. Ceisient hefyd ei hyspysu eu bod yn perthyn i deulu yn Canaan, yn mha un y bu deuddeg mab unwaith, o ba rai yr oeddynt hwy yn ddeg, un gartref gyda'i dad, a'r llall wedi marw: Gen. xlii. 13. Ni chredai Joseph hwynt mewn perthynas i rai pethau etto, a chredaf mai ei reswm dros hyny oedd, am ei fod yn ofni eu bod wedi dwyn Benjamin oddicartref ganddynt, ac wedi ymddwyn tuag ato yr un modd ag y darfu iddynt wneyd tuag ato ef. Er mwyn prawf o'r pethau hyn, cadwodd Joseph naw o'r brodyr yn y carchar, tra yr elai y llall tua Chanaan i ymofyn Benjamin. Wedi cadw y rhai hyn yn y carchar am dridiau, penderfynodd ollwng wyth o honynt yn rhydd, gan eu danfon ar ol y llall tua Chanaan, a gorchymyn iddynt ddychwelyd â Benjamin gyda hwy. Ar eu ffordd adref, tarawyd y brodyr â syndod, pan y darfu i un o honynt (wrth agor y sach i roi ebran i'w asyn) ganfod arian yn ngenau ei sach. Ac yn hyn yr ydym yn mherson Joseph yn cael gweled nad oedd fel y buasai llawer ereill, yn cadw—yn mynwesu digofaint; ond yn hollol fel arall, yn talu da am ddrwg, ac yn caru ei elyn yr un fath â'i gymmydog. Wedi iddynt gyrhaedd cartref, mynegasant i'w tad yr hyn oll a ddygwyddasai iddynt yn yr Aifft; ond er mwyn mynegu pob peth, gwrthododd ollwng Benjamin yn rhydd iddynt, a hyny rhag ofn i rywbeth annymunol ddyfod i'w gyfarfod. Ond, daeth yr amser pan ddarfyddodd yr ŷd, yr hyn a wnaeth yr amgylchiadau yn gyfryw ag oedd yn gorfodi Jacob i roddi i fyny, gan ddanfon y bechgyn i gyrchu ŷd yr ail waith, a Benjamin gyda hwynt, yn nghyd ag anrhegion i lywydd yr Aifft (Joseph), y rhai oedd yn gynnwysedig o falm, mêl, llysiau, myrr, cnau, ac almonau: Gen. xliii. 11. Wedi iddynt gyrhaedd yr Aifft, y maent yn cael eu dwyn i mewn at Joseph, yr hwn a ddangosodd ei hun iddynt, gan holi a oedd eu tad yn fyw ai nad oedd; ac ar yr adeg hono hefyd yr ydym yn cael ei fod wedi bendithio Benjamin, gan ddywedyd, "Duw a roddo ras i ti, fy mab." Methodd Joseph ddal yn ngwyddfod ei frawd, oblegyd fe gynhesodd ei ymysgaroedd tuag ato i'r fath raddau, fel ag y gorfu iddo fyned i'w ystafell i wylo. Wedi iddo ailfeddiannu ei hun, croesawodd ei frodyr, gan wneuthur gwledd fawr iddynt, yn yr hon y gwnaeth fwy o sylw o Benjamin nag un o honynt; oblegyd mwy ydoedd ei saig ef nâ seigiau un o'r lleill. Tranoeth i'r wledd y maent yn cychwyn adref; ond ar eu ffordd tuag yno, fe ymosodwyd arnynt gan olygwr tŷ Joseph, yr hwn a'u cyhuddai o fod wedi dwyn cwpan arian ei arglwydd; yr hwn a gafwyd yn sach Benjamin. Felly, fe ddygwyd y brodyr i'r Aifft drachefn, lle y gwnaeth Juda apeliad dwys at Joseph, i'r dyben o ddangos eu dieuogrwydd fel brodyr o'r cyhuddiad a ddygwyd yn eu herbyn. Cafodd Joseph ei orchfygu gan yr apeliad hwn, yn nghyd â chael allan mai ei frawd gwirioneddol oedd Benjamin.

Felly methodd yntau ddal yn hwy, heb amlygu ei hun i'w frodyr, a hyny trwy lefain â llef uchel, gan ddywedyd, "Myfi yw Joseph: ai byw fy nhad etto?" Nis gallai y brodyr ei ateb ef, oblegyd brawychasent ger ei fron. Y mae yn naturiol i ni gasglu mai yr hyn oedd yn peri iddynt frawychu felly oedd, eu cydwybodau euog, y rhai oedd yn eu condemnio am iddynt erioed werthu eu brawd. Gorchymynodd Joseph iddynt beidio ofni na gofidio dim am yr hyn a wnaethant, a hyny (meddai ef) am y rheswm mai "Duw a'i hebryngodd ef i achub einioes, o'u blaen hwy gan ei osod yn arglwydd ar holl dŷ Pharaoh, ac yn llywydd ar wlad fawr yr Aifft:" Gen. xlv. 1—9. Tua'r amser hyn hefyd y danfonodd Joseph gan ei frodyr at ei dad, i geisio ganddo i ddod i waered i'r Aifft ato ef. Addawai Joseph hefyd, os deuai, iddo gael trigo yn Gosen, ac y byddai yntau yn ei borthi ef a'i feibion, a'i holl greaduriaid, yu nghyd â gofalu am dano yn mhob dull a modd. Wedi i'r brodyr gyrhaedd cartref, a mynegu y newyddion am Joseph, &c., o'r braidd yr oedd yr hen wr yn credu; ond, pan welodd yr anrhegion, a phethau ereill oedd wedi eu danfon iddo, cadarnhaodd hyny ei ffydd i'r fath raddau nes iddo dori allan a dywedyd, "Digon yw, digon yw, mae Joseph fy mab etto yn fyw."

Felly, wedi i Jacob gael allan fod pob peth yn iawn, y mae yn gwneyd ei ffordd tua'r Aifft, a'u rhif hwynt yn myned i mewn i'r Aifft oedd chwech enaid a thriugain, heblaw gwragedd meibion Jacob. Wedi iddynt dreulio tua dwy flynedd ar bymtheg yn Gosen, bu farw eu tad (Jacob), a chladdwyd ef yn ol ei ddymuniad, gyda'i dadau yn ogof Machpelah, yr hon sydd tua dau cant o filldiroedd o

wlad yr Aifft. Wedi claddu Jacob, dychwelodd y brodyr i'r Aifft drachefn. Wedi iddynt ddychwelyd, y maent yn dechreu ofni Joseph, gan ddywedyd y naill wrth y llall fel hyn: "Ond odid, meddent, efe a'n casha ni, a chan dalu a dal i ni yr holl ddrwg a wnaethom ni iddo ef." Hwythau, tra yn cael eu meddiannu â'r teimlad hyn, a aethant at Joseph, gan ddymuno arno i faddeu iddynt. Cafodd y dymuniad hwn o'u heiddo gymmaint o ddylanwad ar Joseph, nes peri iddo wylo yn ddirfawr, gan faddeu iddynt yr hyn oll a wnaethant yn ei erbyn ef. Nid oes genym lawer yn ychwaneg am Joseph, ond yn unig ei fod wedi marw, fel y buodd byw, yn wr sanctaidd, cyfiawn, sobr, a duwiol; ac am hyny fe ellir dweyd am dano ef, fel ag y dywedwyd am lawer ereill, ei fod ef, wedi marw, yn llefaru etto.

Gellir dywedyd hefyd fod ei goffadwriaeth, fel yr eiddo pob un cyfiawn arall, yn aros yn fendigedig, o'r dydd y bu farw hyd yr awr hon; ac fe erys felly hefyd tra bo daear mewn bod. Felly terfynaf yn awr, gan ddywedyd mae yr hyn oeddwn yn ei weled, uwchlaw pob peth yn mywyd Joseph ar y ddaear oedd, fod Duw yn goruwch-lywodraethu amcanion dynion, er mwyn dwyn ei amcanion a'i fwriadau ei hun i ben, y rhai sydd bob amser yn troi i fod o les i'w blant, ac o ogoniant i'w enw anfarwol Ef. Yr oedd yna lawer o bethau yn Joseph fel person, yn ogystal ag yn ei fywyd a'i ymddygiadau, ag a fyddai o werth i bawb i'w efelychu ynddynt. Duw a roddo gymhorth i bawb o honom i geisio deall y pethau hyn, ac ar ol eu deall, i'w dwyn i weithrediad yn ein bywyd a'n hymddygiadau ein hunain yw dymuniad llawer heblaw

BENJAMIN EI FRAWD.

NODYNAU MIN Y FFORDD.

ANGLADD GARFIELD.

NI welwyd erioed, goeliwn, gymmaint o bobl gyda'u gilydd ar amgylchiad o'r fath, ag oeddynt yn bresenol ar adeg angladd yr Arlywydd, ac ni welwyd erioed, dybygwn, ar un adeg gydymdeimlad mor gyffredinol ac mor bell-ledaenol. Nid oes un wlad wareiddiedig nad yw calonau miloedd wedi eu cyffroi. Nid oes un drwg yn ddrwg i gyd, meddai hen ddiareb, ac y mae lle i ddysgwyl daioni mawr i ddeilliaw oddiwrth hyn. Aiff y teimlad o frawdgarwch cyffredinol yr hiliogaeth yn ddyfnach. Peth ofnadwy, onide, yw gweled dyn yn cael ei dori i lawr yn ddisymwth fel yma;—peth trist yw gweled gyrfa mor addawus yn cael ei dwyn i derfyniad buan, a hyny megys ar drothwy defnyddioldeb mawr—cyfleusderau o wasanaeth ardderchog a dysglaer yn y byd, yn cael eu dinystrio trwy ddwylaw adyn llofruddiog, sydd wedi ei siomi yn ei ymgais am swydd. Bu farw Garfield yn aberth i'w gais i buro ei Lywodraeth oddiwrth lygredigaeth, ac y mae lle i obeithio y gwnaiff ei farwolaeth fwy a gwell gwasanaeth nag a fyddai yn debyg o gael ei gyflawnu trwy ei fywyd. Mae achos yn ennill nerth trwy bob aberth a wneir drosto. Cyrhaedda bwysigrwydd yn fwy trwy gydymdeimlad nâ thrwy reswm. Pwy na fuasai'n foddlawn marw, er mwyn y fath glod, y fath angladd, y fath barch a'r fath alar cyffredinol?

CYDYMDEIMLAD Y FRENINES.

Mor felus yw geiriau ein hanrhydeddusaf Frenines—geiriau gweddw at weddw—at Mrs. Garfield: "Words cannot express the deep sym-

pathy I feel with you at this terrible moment. May God support you and comfort you as He alone can." "Nis dichon geiriau ddadgan dyfnder fy nghydymdeimlad â chwi ar y foment ofnadwy hon. Bydded i Dduw eich cynnal a'ch cysuro y modd y mae Efe yn unig yn alluog i wneuthur." A pha le mae y galon nad yw yn union yn ateb Amen. Bernir fod tua dau can' mil yn bresenol yn ei angladd dydd Llun, Medi 26ain.

"Nis gwyddom" meddai Clayden, "sut yr ymddengys iddo Ef sydd yn gweled *bearing* pob dygwyddiad, sydd yn barnu nid wrth farn amser ond wrth farn tragwyddoldeb. Gwyddom ei fod Ef yn caniatau drwg ac yn dwyn daioni allan o hono; ond pam y gwna hyny, neu pam na ellid dwyn y daioni oddiamgylch mewn rhyw ffordd arall, nis gallwn ddyfalu. Ond nid yn hynyma mae gwir ddirgelwch llywodraeth y byd hwn. Nid yn y trais sydd yn tori bywydau dynion ymaith, ac yn eu gwneuthur yn aberth er daioni i ereill, oblegyd onid yw yn ysgrifenedig, 'O lafur ei enaid y gwel, ac y diwellir;' a'r wers mae yr oesoedd crediniol wedi ei dysgu wrth droed y Groes yw y fuddugoliaeth ysprydol a ddaw oddiwrth ostyngiad anianol, a'r bywyd anfarwol sydd yn ennill buddugoliaeth ar angau. Mae y *puzzle* yn dod pan feddyliwn am y llofrudd, nid pan fyddom yn galaru uwchben ei ysglyfaeth. Y Guiteaus a'r O'Donovan Rossas ydynt *enigmas* gwaethaf y byd. * * * Ymddengys fel pe byddai dau order o bobl ar y ddaear—y rhai hyny ag ydynt yn cael y ddysgyblaeth y mae bywyd a'r byd yn ei roddi iddynt, ac ydynt yn addasedig i ymgodi uwchlaw iddo, a'r rhai hyny ydynt yn ymddangos yn suddo odditano ac yn myned allan o'i brofedigaethau wedi eu gorchfygu ganddynt, yn lle bod yn fuddugoliaethus arnynt. Nis gall fod llawer o ddirgelwch yn niwedd dyn da, ond rhaid yn wastad fod cwmmwl annhreiddiadwy dros y cwbl-lygredig a drwg."

Emyn Angladdol yr Arlywydd.

Yn ol *Times* mawr Llundain, wrth symmud corff yr Arlywydd o Long Branch i Washington, canwyd yn ymyl y lle olaf yr emyn "Yn nes, fy Nuw, i Ti, yn nes i Ti," &c.; ac edrychir ar yr emyn yn Llundain yn gyffredinol fel Emyn Angladdol yr Arlywydd. Fe geir yr emyn, mae'n debyg, yn y rhan amlaf o'r llyfrau emynau eglwysig diweddar. Mor swynol yw'r syniad, mor ardderchog, mor deimladwy. Dinas gyfan, cenedl gyfan, megys gyda'u gilydd, yn teimlo fod dyoddefiadau eu prif-lywydd wedi tynu ei yspryd yn nes at ei Dduw. Ei fod wedi ei berffeithio trwy ddyoddefiadau sydd brawf tarawiadol fod corff y bobl yn arferol o edrych at Groes Crist, a thynu oddiwrthi nerth a dyddanwch. Yr oedd y tyrfaoedd oeddynt wedi ymgynnull i dalu eu teyrnged o barch yn sefyll â'u penau yn blygedig ac yn noeth, ac ni safent yno o ran cywreinrwydd yn unig, ond i ddangos eu serch a'u cydymdeimlad at ddyn a ddygodd ei ddyoddefiadau gyda dewrder ardderchog, gwroldeb Crist'nogol, a ffydd ddiysgog. Rhodder i ninau fod yn fwy selog yn ein hymdrechion i argraffu ar feddyliau ein plant,

pa un ai gartref neu yn yr Ysgol Sul, werth y grefydd Grist'nogol. Na chaffed amheuaeth a gorfeirniadaeth gymmylu ein meddyliau, fel y gallom ddysgu iddynt ffydd bur yn Nghrist, y ffydd a roddodd nerth a chynnaliaeth i'r Arlywydd Garfield i fyw bywyd gwron, i farw marwolaeth gwron, ac a fu yn ysprydoliaeth i ddinasyddion Washington a dinasoedd ereill i dderbyn fel ei emyn angladdol :—

"Yn nes, fy Nuw, i Ti," &c.

Fe welir Cymreigiad o'r Emyn, yr hwn a gyfansoddwyd gan foneddiges Undodaidd o'r enw Mrs. S. F. Adams (1805—1848) yn ein casgliad newydd, rhif 146.

Mae rhai o'r papyrau Pabyddol yn galaru nad ydynt wedi clywed dim am

BAROTOADAU

yn ystafell Garfield ar gyfer marwolaeth. Y gwir yw nad oedd ganddo ddim parotoadau i'w gwneuthur. Yr oedd crefydd a'i chysuron wedi bod yn ei galon er yn ieuanc, ac yr oedd yn barod i farw hir amser cyn cael ei saethu. Iddo ef nid meddyginiaeth ar gyfer gwely claf oedd crefydd—nid defod offeiriadol yn ymyl marwolaeth, ond bara beunyddiol bywyd. Gwyddai yn dda fod addasrwydd moesol ar gyfer dyledswyddau bywyd y parotoad goreu ar gyfer awr marwolaeth. Nid peth newydd iddo ef ydoedd crefydd. Pan yn grwtyn ieuanc yn yr Ysgol, adroddir am dano mewn pabell yn neillduedd y mynyddoedd, yn tynu allan ei Feibl ac yn dywedyd wrth ei gyfeillion, "Fechgyn, mae yn arferiad genyf yn yr amser yma o'r hwyr i ddarllen cyfran o'r Ysgrythyr ; os carech glywed, darllenaf bennod yn awr." Ac wedi galw ar un o'i gyfeillion i weddio, syrthiasant oll ar eu gliniau. Yr un ysprydd defosiynol ag oedd gydag ef yn moreu ei fywyd a'i dylynodd hyd y terfyn. Nid oedd arno ef angen gwasanaeth offeiriad i'w barotoi ar gyfer mwynderau y bywyd gwell.

GEIRIAU RHYFEDD

yw y rhai canlynol. Dywedir iddynt gael eu hadrodd gan Garfield fel rhan o'i araeth ar farwolaeth Lincoln. "Mae amserau yn hanes dynion a chenedloedd pan maent yn sefyll mor agos i'r llen sydd yn gwahanu marwolion oddiwrth anfarwolion, amser oddiwrth dragwyddoldeb, a dynion oddiwrth eu Duw, fel y gallant bron glywed anadliadau a theimlo curiadau calon yr Anfeidrol. Trwy amser o'r fath mae y genedl wedi pasio. Pan mae dau cant a hanner o filoedd o ysprydoedd dewrion wedi pasio oddiar faes anrhydedd i bresenoldeb Duw, a phan, o'r diwedd, y darfu i'w drysau ymranol dderbyn i mewn yr Arlywydd merthyredig i gymdeithas gwroniaid meirwon y Weriniaeth, yr oedd y genedl yn sefyll mor agos i'r llen fel yr oedd sisialadau Duw yn cael eu clywed gan blant dynion."

TROSEDDWYR DEDDFAU EGLWYSIG.

Mae y Parch. Mr. Green, yr hwn a wnaeth adduned o ufudd-dod i ddeddfau yr eglwys wrth gael ei ordeinio, yn parhau i aros yn y car-

char am ei fod wedi tori y cyfryw ddeddfau. Mae am wneyd ei hunan yn ferthyr er mwyn cydwybod. Ond pa ryw ferthyr yw dyn sydd yn glynu fel yma wrth y pysgod a'r torthau? Os yw am ddylyn ei ewyllys ei hunan, gadawed yr eglwys *a'i gwaddol*, a bydd iddo yr un rhyddid ag sydd gan unrhyw ymneillduwr arall. Ond os ydyw am waddol yr eglwys, os ydyw am gadw ei gyflog, cadwed delerau y cytundeb, dyna sydd deg, onide? Os ydyw am bregethu Pabyddiaeth, a dylyn defodau Pabyddol, deued allan o'r Eglwys, a bydd iddo bob rhyddid a chwareu teg i ddylyn ei fympwy. Nid rhyddid fyddai caniatau hyn iddo ar un telerau ereill. Etto peth rhyfedd yw y carcharu yma yn y 19eg ganrif. Pe buasai gan un o honom ni was yn gwrthod ufuddhau, yr hyn a wnelem fyddai rhoi *notice to quit* iddo, a byddai *notice to quit* i Mr. Green, ei suspendio, yn llawer mwy effeithiol ac yn sicr yn fwy gweddaidd nâ'i garcharu. Mae ei *superiors* wedi treio pob dyfais resymol i geisio dyfod i ddealltwriaeth gyda Mr. Green, er mwyn gallu ei ryddhau; ond mae y boneddwr yn caru yn well i lyfu ei gadwynau a chwareu merthyrdod nag i addaw yr ufudd-dod cyfreithlawn a dyladwy i'w uwchafiaid; ac mae'r cyfryw uwchafiaid yn ceisio ymgysuro yn y syniad fod drws y carchar wedi ei gloi o'r tu mewn ac nid o'r tu allan. Pa bryd y deuant i wybod mae yr unig feddyginiaeth effeithiol rhag amryfusedd o'r fath yma ydyw Dadgysylltiad? Torer y tidau euraidd.

Sold again—cheap.

Fel hyn mae y *Church Review* (*Sept.* 2,) yn desgrifio gwerthiad bywiolaeth eglwysig Gedding yn Ely: "'Nawr, foneddigion," meddai'r *auctioneer*, "beth ga i ddweyd am y tamaid *patronage*—yr hawl barhaus i bennodi i'r eglwys hon." Dim ateb. "Oes neb yn cynnyg dim? Dyma *capital chance* i roddi bywiolaeth dda i un o'ch cyfeillion. Neu os ydych yn offeiriad, gallwch bennodi eich hunan i'r swydd. Bydd y lle yn sicr o fod yn wag yn fuan. Oes neb wna gynnyg am Rectoriaeth Gedding?" "£100," meddai rhyw foneddwr yn wanaidd bach—*agent of the Church Defence Association*, feallai. £120, £160, £170, yn gyflym ac yna stop. "Myned am £170," meddai yr *auctioneer*. "Beth, foneddigion, mae y bobl yn siarad am Ddadgysylltiad, a dywedant y gwneir ymaith â'r Eglwys yn fuan. Pe buaswn i yn prynu y *property* yma, buaswn yn falch o ddadgysylltiad yr Eglwys, am y gwn y rhoddant fwy i mi nag y mae un boneddwr yn debyg o gynnyg heddyw." Yr oedd yn amlwg nad oedd y meddwl hwn wedi ymgynnyg i neb o'r *speculators* oeddynt yn bresenol, ac yr oedd cyflymdra y cynnygion dylynol yn dangos fod yr *auctioneer*, fel y dywedir wedi 'taro *oil*.' £180, £190, £200, £250, ond nid ai neb yn mhellach. Wedi yr yspaid arferol, dyna'r anocheladwy a'r dialw yn ol—Going! going! gone! Ac felly tarawyd i lawr *perpetual right* gofal eneidiau yn mhlwyf Gedding am £250, a'r prynwr oedd y Parch. R. Townson." Fel hyn y mae gofal eneidiau yn cael eu gwerthu yn Eglwys Loegr. Onid yw dadgysylltiad yn well nâ hynyna?

Masnach a Sefyllfa'r Wlad.

Ar yr adeg bresenol pan mae cymmaint o waeddu am *Fair Trade*, yr hwn nid yw mewn gwir ond enw arall am *Protection*, a dwyn i rym etto, os mynir bod yn gyson, dreth yr ŷd, yr hon y cafwyd cymmaint o drafferth cyn ei dyddimu yn 1846, nid annyddorol feallai fydd darllen yr ychydig ffeithiau canlynol. Mae wedi bod yn amser drwg ar rai yn ddiweddar, rhaid addef. Ond dyna fel mae wedi bod erioed, i lawr ac i fyny mae yr hen olwyn yn troi yn barhaus. Yn ystod y 30 mlynedd diweddaf yr ydym wedi ychwanegu saith miliwn at ein poblogaeth. 30 mlynedd yn ol yr oedd y *paupers* yn 920,000, yn awr nid ydynt ond 803,000—gormod yn wir—ond y mae'r lleihad yn fawr.

Yn 1850, yr oedd rhif y troseddwyr a brofwyd yn euog yn y Deyrnas Gyfunol yn 51,000, y llynedd nid oeddynt ond 15,000. Y pryd hwnw yr oedd y *deposits* yn y Banciau Cynnilo yn £30,000,000, y maent yn awr dros 77 o filiynau. Yr oedd *gross value* y *property* a'r *profits* a assessid am Dreth Incwm yn 1850 yn 256 miliwn, yn 1879 yr oeddynt yn 578 miliwn. Yn 1851, allforasom *(exports)* werth 115 miliwn, llynedd gwerth 280 miliwn. Yn yr un amser aeth ein *imports* (y defnyddiau a ddygwyd i mewn i'n gwlad) i fyny o 152 i 411 miliwn. Nid yw y *figures* yma, dybygwn, yn arwyddo ein bod yn myned yn ein hol, nad pa gymmaint y mae ein brodyr Toriaidd yn crawcian hyny.

Anffyddiaeth yn Ffrainc.

Traddodwyd darlith yn ddiweddar yn Paris i gynnulleidfa fawr o brif ddynion y ddinas, a chymmerwyd y gadair gan Gambetta. Y darlithydd oedd boneddwr o'r enw Bert, yr hwn a dybir fydd un o'r dyddiau nesaf yma yn Weinidog Addysg yn Ffrainc. Y pwnc oedd crefydd, a gwrthwynebai y darlithydd bob crefydd yn ddidrugaredd, gan ddynoethi a dirmygu egwyddorion Pabyddiaeth hyd eithaf ei allu, fel pe byddent hanfod Cristnogaeth. Mae Gambetta oddi ar yn ddyn ieuanc iawn, mae yn debyg, wedi ymwrthod a phob crefydd fel ffugbeth disail, a ffolineb niweidiol i les cymdeithas ; ac er ys blynyddau bellach nid oes amser wedi bod ganddo i dalu sylw dyladwy i'r pwnc. Mae yn drueni ei fod felly yn rhoddi ei ddylanwad mawr yn erbyn pob crefydd, gan gymmeryd Cristnogaeth yn gyfystyr â Phabyddiaeth, a thaflu y ddau dros y bwrdd. Rhaid addef fod Gambetta yn ddyn mawr, yn un o'r tri cyntaf a ddaethai i'r meddwl yn union fel enwoggion Ewrop—y ddau arall ydynt Bismarck a Gladstone. Mor wahanol er hyny ydyw nodweddion cymmeriadau y tri wyr hyn. Nid yw dyn mawr fodd bynag yn fawr yn mhob peth, na dyn gwybodus yn wybodus yn mhob cangen o wybodaeth. Gall dyn fod yn seryddwr mawr, heb wybod ond ychydig am ddaeareg ; ac yn wleidyddwr mawr heb fod yn hyddysg yn egwyddorion crefydd. Ond y mae'n rhyfedd fel mae Anffyddiaeth yn cael ei gynnyrchu gan Babyddiaeth, ac ofergoeliaeth gan bob un o'r ddau. Anffawd i Weriniaeth Ffrainc fydd ceisio taflu crefydd allan, er nad oes un cyssylltiad angenrheidiol

rhwng Annghrediniaeth a Gweriniaeth. Edrychwn ni yn Nghymru gyda chryn lawer o ddyddordeb ar yr *experiment* gwerinol yn Ffrainc, ac os try allan i fod yn llwyddiant nid ydym heb led gredu y trosglwyddir yr un egwyddorion cyn hir iawn i Germani a Rwssia. Dichon na chymmer hyny le heb chwyldroad ofnadwy yn gyntaf; ond nis gallwn credu y gall y Germaniaid na'r Rwssiaid ddodi i fyny lawer iawn yn hwy gyda'r sefyllfa bresenol ar bethau.

Hydref 6, 1881. T. C. U.

DYNION MAWR.

Mr. Gol.—Cyfaddefir gan braidd bob llenor o nôd fod Bywgraffyddiaeth *(Biography)* yn un o'r cangenau mwyaf dyddorol i'w hastudio yn llenyddiaeth pob cenedl yn mhob oes a gwlad. Mae yr anhawsderau rhyfeddol ag y mae y rhan fwyaf o enwogion y byd wedi eu gorchfygu cyn cyrhaedd eu hamcanion, yn cynnwys gwersi gwerthfawr i'r myfyriwr ieuanc, ac yn llawn dyfyrwch i'r hen. Dan y penawd uchod, yr wyf yn bwriadu (trwy eich caniatad) anfon ysgrif bob mis neu ddau yn cynnwys hanes fer, ac mor gryno ag y medraf, am rywun a fo wedi neu yn gadael ei *farc* ar draethell amser, pa un ai er da neu er drwg. Tybiwn y gwasanaetha ychydig o hanes y rhai da i symbylu rhai o'ch darllenwyr i'w efelychu, ac y bydd i eiddo y rhai amheus wasanaethu er rhybuddio ereill i gadw draw o lwybrau dinystr.

Bernard Palissy

gaiff fod dan ein sylw y mis hwn. Tybir fod hanes bywyd y dyn rhyfeddol hwnw yn un o'r enghreifftiau mwyaf synfawr o werth penderfynolrwydd ag a geir ar dudalenau hanesyddiaeth. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1509. Tyddynwr bychan oedd ei dad, ac addysg tyddynwr tlawd a gafodd yntau gan ei rieni, y rhai a'u rhwymasant tra yn bur ieuanc i ddysgu y gelfyddyd o wneyd priddlestri. Yn ystod tymhor ei egwyddoriaeth, dysgodd, nid yn unig ei gelfyddyd ei hun, ond hefyd, dysgodd y ffordd i dynu arluniau a lliwio ar wydr, ac hefyd y ffordd i fesur tir, i berffeithrwydd mawr. Daeth i gryn enwogrwydd fel tir fesurydd. Pan ddaeth ei amser fel egwyddorwas i derfyniad, penderfynodd fyned am daith trwy Germani a Ffrainc, er ymberffeithio yn ei gelfyddyd ei hun a chelfyddydau ereill. Tra ar y daith hon, galwyd ei sylw at lestr prydferth iawn wedi ei orchuddio ag *Italian enamel.* Nid oedd wedi gweled y fath beth erioed o'r blaen, a thybir nad oedd neb i'w gael yr adeg hono a wyddai y ffordd i wneyd y fath lestr. Ond penderfynodd Palissy fynu gwybod y dirgelwch. Bu yn gwneyd ymbrawfion parhaus am un-flynedd-ar-bymtheg! Yr oedd ei ffydd yn gref y buasai yn llwyddo yn y diwedd. Wedi iddo fod am flynyddau

amryw gyda'i hoff bwnc, a threulio ei holl adnoddau hyd nes yr oedd ef a'i deulu wedi ei dwyn i dlodi echrydus, dygwyddodd gael ei bennodi gan Frenin Ffrainc i fesur a gwneyd mor-leni o arfordiroedd y deyrnas hono. Daeth hyny ag ychydig arian i'r teulu newynog, a galluogodd Palissy i fynu ffwrnesi newyddion ar gynllun o'i ddyfais ei hun. Ond och! nid ymddangosai ei fod fymryn agosach i gyrhaedd ei amcan. Cyflawnodd y gorchwyl a ymddiriedwyd iddo gan y Llywodraeth Ffrengig yn mhen oddeutu dwy flynedd, "ac yna," ebe fe, "dechreuais fy rhyfel yn erbyn yr *enamels* yr ail waith." Ac yn awr, gan fod ei holl gynnygiadau gyda yr hen ffwrnesi a arferid gan wneuthurwyr priddlestri yr oes hono a'r ffwrnesi a ddyfeisiodd efe ei hun wedi methu, penderfynodd wneyd prawfion mewn ffwrnesi tebyg i'r rhai a arferid gan wneuthurwyr gwydr; gan y gellid eu twymno yn llawer poethach, tybiodd y gallasent roddi gwell mantais iddo i gyrhaedd ei amcan.

Am ddwy flynedd arall bu yn gwneyd prawfion parhaus yn y ffwrnesi newyddion hyny; ond y cwbl yn ofer. Treuliodd yr holl arian a ennillodd wrth wneuthur y mor-leni, ac unwaith etto, cafodd ei deulu ac yntau mewn dygn dlodi. Yn ngwyneb erfyniadau parhaus ei wraig am iddo roddi i fyny ei ymdrechion, difudd yn ei golwg hi, a gwatwariaeth ei gymmydogion anwybodus, bu agos iddo roddi i fyny mewn anobaith a chywilydd. Ond penderfynodd alw ei holl nerthoedd dyfeisiol at eu gilydd, er gwneyd *un* cynnyg cawraidd ychwanegol i orchfygu yr hen elyn *afluyddiant*, yr hwn oedd wedi ei gadw yn gaeth iddo am unflynedd-ar-bymtheg. Ond yr oedd un rhwystr anorfod i feddwl cyffredin ar ei ffordd i wneyd yr un ymgais ddiweddaf hono—yr oedd ei holl danwydd wedi eu difa yn flaenorol, ac nid oedd ganddo fodd yn y byd i brynu ychwaneg. Mewn amgylchiadau cyffredin, dywedir fod "*gallu*" bob amser yn dylyn "*gwyllys*;" ac felly yn yr achos hwn. Torodd i fyny yr ychydig ddodrefn oedd yn ei feddiant—gadair ar ol cadair, a bwrdd ar ol bwrdd, nes gwneyd ei ffwrnes yn eiriasboeth; a phan ddaeth yr amser cyfaddas, tynodd allan ei lestri, a gwaeddodd allan nerth ceg, "Buddugoliaeth," gan neidio o gylch y gweithdy mewn llawenydd a goruchafiaeth. A "buddugoliaeth" ardderchog a gafodd. Pan ddaeth ei lwyddiant yn adnabyddus, cafodd archebion dirif am ei lestri oddiwrth fawrion, a thywysogion, a thywysogesau y gwledydd. Cafodd ei hun yn mhen ychydig flynyddau yn wr enwog a chyfoethog iawn.

Heblaw ei enwogrwydd fel gwneuthurwr llestri o'r dosparth blaenaf, cyrhaeddodd enwogrwydd mawr fel naturiaethwr. Tybir mai efe oedd y cyntaf i gasglu yn nghyd gynlluniau (*specimens*) mewn hanesyddiaeth naturiol, ac i draddodi darlithiau eglurhaol arnynt. Cyflogwyd ef gan frenin Ffrainc, a threuliodd oddeutu deg mlynedd ar ugain yn y palas breninol yn athraw a darlithiwr yn ngwahanol gangenau gwybodaeth; ac adnabyddid ef wrth yr enw "Y Meistr Bernard o'r Tuileries."

Buasai yn dda genym orphen hanes Palissy mewn gogoniant yn y fan hon; ond ys gwaethyroedd, y mae pennod anhapus yn niwedd ei oes. Daeth Harri III. i orsedd Ffrainc, a phenderfynodd, yn mysg

llawer o weithredoedd ysgeler ereill, gyfnewid barn grefyddol Palissy. Am na buasai yr hen briddfeiniwr yn ufuddhau i'w ddymuniadau, taflodd ef i garchar, yn yr hwn le, wedi caethiwed blin am bedair blynedd, y bu farw yn y flwyddyn 1589. Ond tra mae enw Harri III. yn drewi yn ffroenau pob hanesydd rhinweddol, y mae enw Palissy mewn graddfa anrhydeddus yn mysg eiddo rhagorolion y ddaear, a'r llestri a wnawd ganddo yn fwy eu gwerth yn ngolwg mawrion y byd nag aur coeth.

J.H.A.

BEDDARGRAFF DR. PRIESTLEY.

Mae Mr. Rees Richards, Frackville, Schuylkill Co., Pa., gynt o Cwmbach, ac un amser diacon yn yr Eglwys Undodaidd yno, mewn llythyr cyfrinachol at ei hen weinidog, Mr. Lloyd, yn ysgrifenu fel yma :—

"Mae genyf gais arall atoch ar ddymuniad Prof. B. F. Underwood, o Boston, yr hwn fu yn yr ardal hon ychydig fisoedd yn ol, yn traddodi rhes o ddarlithau, ar y pynciau canlynol,—(1) Pynciau y dydd; (2) Camgymmeriadau a chamddarluniadau y pwlpud Uniawngred; (3) Beth mae Rhyddfrydiaeth yn ei gynnyg yn lle y Dduwinyddiaeth boblogaidd. Bu yn aros yn y lle hwn ddwy noswaith. Felly cawsom ychydig ymgom ag ef, a daeth y diweddar Dr. Priestley dan sylw, ac adroddodd John Thomas y pennill sydd yn gerfiedig ar gareg ei fedd yn Llundain, yn yr hwn mae y syniad fod y corff a'r enaid yn huno yn y bedd, A dyma gais Mr. Underwood genych, sef cael y pennill fel mae yn gerfiedig yn Saesneg, gydag enw yr awdwr. Carem hefyd gael y pennill yn Gymraeg, gydag enw y Cyfieithydd."

Cyfansoddwyd y pennill crybwylledig gan y diweddar Barch. David Davis, Castell Hywel, awdwr Telyn Dewi, cyhoeddedig 1824, a 1876; a chyfansoddwyd y cyfieithad gan y Parch. T. Griffiths (Tau Gimel). Fel hyn mae y gwreiddiol,—

Here lie at rest, in oaken chest,
Together packed most nicely;
The bones and brains, flesh, blood and veins,
And *soul* of Doctor Priestley.

Dyma'r cyfieithad,—

Yma gorwedd wedi marw
Yn dra detheu mewn arch dderw,
Esgyrn, 'mhenydd, gwaed, gwythlenau,
Corff *ac enaid* Doctor Priestley.

Mae gofyniad ein cyfaill Mr. Richards, fodd bynag, yn cynnwys camgymmeriad. Nid yw Dr. Priestley wedi ei gladdu yn Llundain, ac nid yw y pennill yn gerfiedig ar gareg ei fedd. Ysgrifenwyd y pennill cyn marw Dr. Priestley, ac er mwyn tipyn o ddifyrwch, a dywedir i'r Dr. dysgedig chwerthin yn iachus pan y darllenodd ef. Bu farw Dr.

Priestley yn Northumberland, Pennsylvania, Chwefror, 1804, yn 71 oed. Gorfu arno ffoi o wlad ei enedigaeth er mwyn dyogelwch. Yr oedd ei syniadau gwleidiadol a chrefyddol mor anmhoblogaidd fel yr oedd ei fywyd mewn perygl. Llosgwyd ei dŷ, dinystriwyd ei lyfrgell, a'i offer, gan y *mob*, yr hwn oedd yn cael ei arwain gan uchel-eglwyswyr, rhai o honynt yn offeiriaid, y rhai aent o amgylch heolydd Birmingham yn llefain "Church and State," "God save the King," "Down with the Dissenters," &c. Llosgwyd y capel Undodaidd hefyd. Dywed cyfaill "fod yr heol o fewn hanner milldir i dŷ Priestley yn wasgaredig â'i lyfrau, &c., y rhai yr oedd y *mob* yn eu cario i ffwrdd. Ni ddychwelodd y Dr. byth i Birmingham wedi hyn, ond cyfansoddodd bregeth a danfonodd hi i'w phregethu yn nghanol adfeilion ei gapel, gan un o'r aelodau, ar y testyn, "O Dad, maddeu iddynt, canys ni wyddant beth maent yn ei wneuthur." Yr oedd yn un o amddiffynwyr galluocaf Crist'nogaeth yn ei oes. Yn Ffrainc cusanwyd ef gan offeiriad am y rhan a gymmerodd yn erbyn Atheistiaid. Fel hyn y dywed un bywgraffydd am dano—"He was affable, benevolent, pure, just, and industrious. As a minister, faithful; as a father, good and kind; as a husband, loving and true; as a philosopher, learned and useful; as a citizen, liberal and patriotic; as a Christian, a follower in the footsteps of Jesus Christ." Bu farw D. Davis, Castell Hywel, 1827, ganwyd ef 1745.

ABERTAWE.

Ailagoriad y Capel Undodaidd. Cyfarfod Chwarterol Undodiaid Deheubarth Cymru.

Cynnaliwyd y Cyfarfodydd Agoriadol a Chwarterol yn y capel uchod, ar Mercher a Iau, 28ain a'r 29ain o Medi diweddaf. Am chwech o'r gloch yn yr hwyr dydd Mercher, dechreuwyd y cyfarfod gan y Parch. J. Evans, Gellionen, a phregethodd y Parch. E. W. Lloyd, Cwmbach, oddiar Gal. vi. 6 yn Gymraeg. Dydd Iau, am 11eg o'r gloch y boreu, dechreuwyd gan y Parch. J. E. Manning, A.C., gweinidog y lle, trwy ddarllen rhan o'r llithiau, a'r Parch. H. Ierson, A.C., Llundain, trwy ddarllen y rhan arall, a gweddio. Y pregethwr appwyntiedig yn Saesonaeg oedd y Parch. J. P. Hopps o Leicester. A phregethodd yn rhagorol oddiar y geiriau yn yr xi. Salm. "Canys y seiliau a ddinystriwyd; pa beth a wna'r cyfiawn?" a xlvi., "Duw sydd noddfa a nerth i mi, cymhorth hawdd ei gael mewn cyfyngder;" ac ar ei ol, y pregethwr appwyntiedig yn Gymraeg, y Parch. R. J. Jones, A.C., Aberdar, ar y pwnc, "Tarddiad, natur, a thynged dyn." Nis gallwn roddi talfyriad o'r bregeth hon; ond meddyliwn y byddai yn dderbyniol iawn gan holl dderbynwyr Yr Ymofynydd pe ceid ei gweled ynddo. Am un o'r gloch, cafwyd *cold collation* yn y Cameron Arms

Hotel; Mr. Brock, Brynsyfi, yn llywyddu. Wedi cyfranogi o hono, dywedodd y cadeirydd nad ydoedd yn myned i gynnyg llwnc-destynau ar yr achlysur hwn; ond buasai iddo enwi ychydig synwyr-wersi (*sentiments*). Yn gyntaf, "Yr ydym yn dymuno pob peth da i'r Frenines." Yn ail, "Rhyddid gwladol a chrefyddol," a chyflewyd wrtho enw Mr. C. H. James, A.S., Merthyr Tydfil, yr hwn a anerchodd y presenolion yn ddoniol iawn yn ol ei arfer. Cynnygiodd Mr. Perkins ddiolchgarwch y gymdeithas i bregethwyr y dydd. Atebwyd gan y Parch. J. P. Hopps a'r Parch. R. J. Jones. Cynnygiodd Mr. J. H. Rowlands (Maer Castellnedd), fod diolch i gael ei roddi i'r *British and Foreign Unitarian Association*, am anfon cynnrychiolwyr i'r cyfarfodydd hyn; a siaradwyd mewn atebiad gan y Parch. H. Ierson, A.C., Ysgrifenydd y Gymdeithas, a Mr. Herbert New, Evesham.

Y Gweinidogion Cymreig.

Y Parch. J. E. Manning, y gweinidog, a ddywedai ei fod yn teimlo yn falch fod ei frodyr Cymreig wedi dyfod i'w plith; ond y carasai fod rhagor o honynt wedi gwneuthur eu hymddangosiad ar yr achlysur hwn. Cydnabyddwyd y sylwadau yn ddiolchgar gan y Parch. Nestor R. Williams, Merthyr, a'r Parch. J. Evans, Gellionen.

Y Gynnadledd

A gynnaliwyd yn y prydnawn yn yr ysgoldy cyfleus perthynol i'r capel. Y Parch. Mr. Manning yn y gadair. Dechreuodd y cyfarfod trwy sylwi ar y gwasanaeth gwerthfawr a roddodd Mr. S. Sharpe o Lundain i hanes Feiblaidd, &c.; a chan fod y Cyfarfod hwn yn Gyfarfod Chwarterol Undodiaid Deheubarth Cymru, ei fod yn amser cyfaddas iawn i basio *vote* o gydymdeimlad â pherthynasau y diweddar Mr. Sharpe, yr hyn a eiliwyd gan y Parch. R. J. Jones, yr hwn a ddywedai fod Mr. Sharpe wedi bod o fendith fawr, nid yn unig i'r enwad y perthynai ef iddo; ond ei fod ef wedi estyn ei haelionusrwydd i enwadau ereill yn Nghymru yn gystal à Lloegr. Nid oes achos dweyd, fe baswyd y *vote* yn unfrydol iawn. [Gweler ei hanes yn Yr Ymofynydd diweddaf].

Y peth nesaf oedd darllen papyr gan y Parch. N. R. Williams, ar "Gyfieithad Diwygiedig y Testament Newydd ac Undodiaeth Gristionogol." Gofynai, Pa un a ydyw Undodiaeth wedi ennill neu golli tir drwy y cyfieithad newydd? Ac atebai yn uniongyrchol fod y corff Undodaidd wedi ennill llawer, ond nid yr oll, y maent wedi bod yn ymladd drosto drwy'r blynyddau. Ond beth bynag all fod neu fydd y cyfnewidiadau, ni fydd i'r gwirionedd gael ei ddymchwelyd. Bydd i obeithion, addewidion, a chyssuron Cristionogaeth aros a blodeuo. Mr. J. H. Rowlands a ddywedai nad oedd llawer o'r cyfnewidiadau a geir yn y cyfieithad yn newydd i lawer o'r gynnulleidfa yn y lle hwn, gan eu bod wedi clywed y cyfryw lawer gwaith o'r pwlpud gan eu diweddar weinidog—y Parch. E. Higginson.

Parch. R. J. Jones ddywedai ei fod yn teimlo yn flin am na fuasai cyfieithad newydd wedi ymddangos yn yr iaith Gymraeg. Teimlai ei

fod yn cael llawer o les a goleuni wrth ddarllen a chymharu y cyfieithad newydd a'r hen. Siaradodd Messrs. New a Manning yn fyr ar y pwnc.

Yr ail gwestiwn a drafodwyd oedd, "A ydyw addysg gelfyddydol, fel yr adolygwyd hi yn York, yn elynol i Undodiaeth Gristionogol?" Darllenwyd papyr galluog arno gan Mr. C. H. Perkins o Abertawe.

Yn yr hwyr, traddododd y Parch. J. P. Hopps ddarlith ar "Werth crefyddol y ffydd Gristionogol,"—Mr. James, A.S. Merthyr, yn y gadair. Bu'r cynnulliadau yn dda iawn drwy'r oll o'r cyfarfodydd; yn well nag ydym wedi weled ar lawer tro mewn Cyfarfod Chwarterol yn Abertawe.

Dylasem, efallai, fod wedi dweyd fod y capel wedi cael ei harddu yn neillduol o dda. Mae yr eisteddleoedd wedi cael eu gwneuthur yn llawer mwy cyfleus; yr hen gorau uchel, hen ffasiwn, wedi cael eu tori lawr, a'u gwneuthur yn fwy tebyg i'r dull diweddar o *blanio* gan *architects*. Mr. Huxham, ysgrifenydd yr eglwys, oedd yr *architect*; a Mr. John Davies, saer, genedigol o ardal y Cribin, sir Aberteifi, aelod o'r gynnulleidfa, a gariodd yn mlaen y gwaith mewn perthynas i'r *seats*. Mae'r cyfan wedi ei wneuthur yn ardderchog a gwir foddhaol.

J.E.G.

DOWLAIS.

Agoriad y Capel Undodaidd Newydd.

Dydd Sul a dydd Llun, Hydref 2 a'r 3, y cynnaliwyd y cyrddau agoriadol mewn cyssylltiad â'r capel hir-ddysgwyliedig uchod. Fel ag y mae yn hyspys i'r rhan fwyaf o ddarllenwyr Yr Ymofynydd, mae Dowlais yn lle poblog iawn, yn cynnwys y gwaith dur a haiarn eangaf yn Nghymru, ac yn lle mae cannoedd o Undodiaid wedi taflu eu coelbren ynddo er ennill eu cynnaliaeth. Ond maent wedi bod yn wasgaredig ar hyd y lle, nemawr byth yn mynychu un lle o addoliad, oddieithr y mwyaf selog yn eu plith, a hyny am y rheswm cryfaf nad oedd y cyfryw le i'w gael yn nes nâ Merthyr neu'r Cefn. A'r canlyniad yw, fod yr Undodiaid yma, selog a gweithgar unwaith, lawer o honynt, wedi myned yn oer, yn gysglyd, a difater. Ond nid yw Undodiaeth, serch hyny, ddim wedi bod yn beth hollol ddyeithr yn Nowlais. Mor bell yn ol â'r flwyddyn 1861, dechreuodd y diweddar Barch. Owen Evans, Cefn, gynnal cyfarfodydd pregethu yno, mewn ystafell eang berthynol i'r New Inn; a chofir yn awr gyda phleser ac anwyldeb am y pregethau hyawdl a draddodwyd ganddo mewn amddiffyniad o bynciau anwyl yr hen Undodiaid. Cynnaliwyd y cyfarfodydd yma yn rheolaidd hyd farwolaeth Mr. Evans yn y flwyddyn 1865; ac yn ystod y deng mlynedd nesaf, ni wnawd dim er lledaenu egwyddorion yr Undodiaid yn Nowlais.

Ond yn y flwyddyn 1875, talodd y Parch. Jno. Davies, Alltyplaca, ymweliad â'r lle, yn ystod ei daith bererindodol trwy wahanol barthau

o Ddeheudir Cymru i draddodi cyfres o ddarlithiau ar gais y *British and Foreign Unitarian Association.* Ail gynneuodd Mr. Davies y tân ag oedd wedi bod yn enhuddedig am gymmaint o amser, a rhoddodd ysgogiad newydd i'r achos bychan Undodaidd yn Nowlais. Oddiar hyny hyd yn awr, mae gwasanaeth rheolaidd wedi cael ei gynnal bob pythefnos yma; ac mae cyfarfyddiad ychydig gyfeillion ymdrechgar a ffyddlon dros y gwirionedd wedi esgor ar gapel bychan prydferth, yr hwn, ni a hyderwn, fydd yn fan cyfarfod i lawer pererin sydd hyd yma wedi bod yn ddigartref mewn ystyr grefyddol, fel y chwydder y gynnulleidfa fechan, "Nes delo'r fechan yn fil, a'r wael yn genedl gref."

Mae y capel newydd wedi ei adeiladu mewn man cyfleus a ffafriol ar odre White Street, yr hon sydd yn gwynebu Dyffryn Merthyr. Nis gall ymffrostio mewn unrhyw orchestwaith celfyddydol,—y mae yn syml a dirodres, ond yn dlws a destlus dros ben. Gan mai *cwmffurt* a chynnildeb oedd y prif bethau mewn golwg gan y cyfeillion wrth ei adeiladu, nid yw yr adeilad yn rhodresgar iawn oddiallan chwaith, ac nid yw yn debyg o swyno llygad yr ymwelydd; ond fel y dywedasom, mae ei brydferthwch yn ei symledd. Mae yn gynnwysedig o dŷ cwrdd i eistedd o 150 i 200 o bobl, gydag ysgoldy hardd ac eang uwchben, yr hwn a fwriedir i gynnal ysgol ddyddiol ynddo, ac y mae yn hynod gyfleus i'r perwyl. Traul y cyfan yw oddeutu £550.

Dechreuwyd y cyfarfod boreu y Sul am ddeg o'r gloch, pryd y pregethodd y Parch. Jno. Davies oddiar Matth. xvi. 18; a'r Parch. N. R. Williams, Merthyr, yn Saesoneg oddiar Matth. vii. 21, 22. Yn y prydnawn, am hanner awr wedi dau, pregethodd y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, yn Saesoneg, oddiar Gen. i. 16, Preg. vii. 29, a Luc xxv. 4. Ei destyn oedd, "Dyn: ei darddiad, ei natur a'i dynged." Ac ar ei ol, pregethodd y Parch. J. Evans, Gellionen, oddiar 1 Cor. ix. 16. Yn yr hwyr, am chwech, traddodwyd dwy bregeth Gymraeg; y naill gan y Parch. J. Davies oddiwrth Act. x. 34, 35, a'r llall gan y Parch. J. Evans oddiwrth 1 Cor. ii. 1, 2. Am 7 nos Lun, pregethodd y Parch. J. E. Manning, M.A., Abertawe, yn Saesoneg oddiwrth Luc ii. 9, 10; ac ar ei ol, y Parch. J. Davies oddiwrth Matth. xxvi. 1, 2. Mae y cynnulleidfaoedd lluosog, y rhai oeddynt yn fwy nâ gorlenwi y capel, y gwrandawiad astud a difrifol, a'r argraff dda a adawodd y cyfarfodydd ar eu hol, yn fwy o glod i'r pregethau nag a allwn ni wneyd yma mewn du a gwyn. Casglwyd yn ystod y cyrddau £13. A chymmeryd i ystyriaeth fod y capel newydd yma yn anturiaeth rhyw nifer fechan o weithwyr llafurus, mae yn gredid calon iddynt eu bod wedi adeiladu capel mor brydferth ac mor gryno, ac wedi llwyddo i gasglu £350 i leihau y ddyled arno.

Gobeithir y gwna cyfeillion caredig a haelionus, yn mhell ac agos, gymmeryd yr achos gwan yma at eu hystyriaeth, ac y gwnant eu goreu i gyfranu etto er clirio y ddyled sydd yn gorphwys ar y brodyr yn Dowlais, y rhai sydd wedi gweithio yn galed, mewn amser ac allan o amser, er dwyn y capel i'r man ydyw yn bresenol.

J.H.D.

EIN FERCHEID.

[illegible]

[illegible]

[illegible]

hwn, Miss Mary!" "Gyda'ch cenad, lamp i'ch goleuo chwi ydyw," medai Mary, "*signal light* ydyw. Mi welais long fawr yn rhedeg yn eiclarbyn, am nad oedd genych lamp wedi ei hongian allan, a meddylis i eich bod feallai wedi ei hanughofio." Plygodd Jim ei ben ac wyddi fel plentyn bach. O'r diwedd, fe ddywedodd, "*Right*, Missy fach *right*, yr oeddwn wedi ei anughofio. Dysgodd fy mam y gorchymyn hwna i mi pan oeddwn yn blentyn bach fel chwithau. Ac o hyn maes yr wyf yn penderfynu hongian allan fy lamp, rhag i mi gaefy llongddryllio yn llwyr gan y llong ddrwg yna, fel y galwch chwi y llon a'r rhegfeydd." Mae gan Jim Feibl mawr yn awr a roddodd Mary iddo, ac ar y clawr mae yn argraffedig, SIGNAL LIGHT FOR SOULS BOUND FOR HEAVEN.—*Christian Freeman.*

Gohebiaethau.

CYHOEDDIAD ENWADOL.

Sir—Yr wyf yn un o'r personau hyny sydd'n tybied y dylai fod gan bob enwad o lefaru cyhoeddiad iddi ei hunan, i gadwyn fyw y dyddordeb priodol yn ei gwaith, i fod yn gyfrwng i gyfnewid awgryiadau, i daenu gwybodaeth yn nghyd gweithrediadau yr enwad, ac i gyhoeddi ac esponio yr egwyddorion hyny ydynyn ffurfio prif rheswm ei bodolaeth. Ymddangosiadau gall wneuthur gwaith gwerthawr wrth gadw i fyny fath o rwymyn rhwng aelodau gwasgaredig yr enwad y rhai ydynt yn byw mewn cymmydogaethau lle nad oes un eglwys yn dalu sylw i'r syniadau hwy yn bodoli. Mae llawer iawn o'r cyfryw yn perthyn i'r enwad a leidir gan YR YMOFYNYDD, ac i'r cyfryw beth all fod yn fwy dyddorol nâ darllen ychydig am yr ben egwyddorion ydynyn anwyl ganddynt? Pa fodd yn well gallant gadw yn fyw y teimladau crefydol yn y galon? Ac mor felus fydd iddyn gael gwybod o bryd i bryd beth sydd yn cymmeryd lle yn y gwahanol eglwysi. Nid hyfryd chwaith yw bod heb gyhoeddiad i gofnodi genedigaethau, priodasau, a marwolaethau. Ond y gwaethaf o'r pâ yw, nad yw cyhoeddiadau enwadol neuaf byth yn fantais arianol i'r rhai syddyn eu cario yn y blaen; ac felly fe welirod yn ddyledswydd ar bob un a gar lwyddiant ei ffydd grefyddol i wneuthur pobpeth dreth i gael cylchrediad helaeth i uniggyhoeddiad ei enwad. Braidd y mae un tau Undodaidd o bob dau neu dri yn meddwl am dderbyn YR YMOFYNYDD, ac o'r rhai a'i derbyniant y mae rhai ag a allent fforddio yn dda i wneuthur yn well, yn ymfoddloni ar fod yn un o ddau neu dri i'w dderbyn. Sut y carai fiernwr, neu siopwr cefnog, y meddylddrych o'i farwgof yn rhedeg fel yma. "Yr oedd yn ddyn cyfrifol yn ei gymmydogaeth ar gyfer ei gyfoeth mawr, a darllenai YR YMOFYNYDD yn rheolaidd, yr hwn yr oedd yn ei dderbyn mewn cyssylltiad a dau neu dri boneddwr arall." Wrth gwrs, lle byddo tlodi yn rheswm mae yn ddigonol, er nad yw tair ceiniog yn y mis ddim yn llawer. Mae yn ymddangos yn beth poblogaidd iawn i awgrymu fod yr ymadawedig yn ddarllenwr cysson o'r YMOFYNYDD, ac y mae hyny yn lurion, ond cofier fe ddylai fod yn wir. Peth gwrthun iawn yw mwy na mwy o anwiredd ar amgylchiad o'r fath. Oni ellir heb hyny, mi awgrymwn i mae peth da i gorff ac enaid llawer fyddai hebgor tair ceiniog yn y mis oddiwrth y dybaco neu y ddiod, er mwyn cael YR YMOFYNYDD.

CARWR YR ENWAD.

EIN HYSGOLION SUL.

MR. GOLYGYDD,—Gyda'ch caniatad carwn wneyd un sylw ar yr arthygl ddefnyddiol a ymddangosodd yn eich Rhifyn diweddaf, yn cynnwys ystadegau ein Ysgolion Sul. Yr wyf yn ddigon adnabyddus o ddwy ysgol a grybwyllir, sef, Llwynrhydd-

owen a Bwlchyfadfa, ac wrth edrych dros y golofn sydd yn gosod allan rif yr ysgolheigion, gwelais yn union fod rhyw ddyryswch wedi cymmeryd lle. Rhif yr ysgol yn y Llwyn yn ol yr adroddiad yw 65, Bwlch 87. Yn awr, mae'n digwydd mai Ysgol y Llwyn yw y lluosocaf, er fod yr adroddiad yn dweyd fel arall. Ar ol ymchwiliad, yr wyf wedi cael allan fod yr annghyssondeb yn codi oddiar fod Ysgol y Llwyn wedi cofnodi yr *average attendance* ac Ysgol y Bwlch rif yr holl ysgolheigion perthynol iddi. Feallai fod yr un annghyssondeb yn digwydd mewn enghreifftiau ereill. Mae y camsyniad wedi codi yn ddiamheu wrth lauw y papyr a anfonir gan y gymdeithas yn Llundain.

W. JAMES.

Llandyssul, Hydref 11*eg*, 1881.

Hanesion.

ABERDAR.—Cynnaliwyd gwyl dê flynyddol y capel Seisnig yn Highland Place, dydd Iau, Medi 29ain. Cafwyd cyngherdd nodedig dda yn yr hwyr.

CAERDYDD.—Bydd yn dda gan ddarllenwyr YR YMOFYNYDD glywed fod yr achos yma yn parhau yn obeithiol iawn—y gynnulleidfa yn cynnyddu o hyd.

TREORCI.—Mae yr achos yn mhlith y brodyr yma wedi ei adael i orphwys er ys hir amser, ond dywedir fod rhyw gyffro yno yn bresenol. Chwythed yr awel etto fywyd newydd yn yr esgyrn sychion.

HEN-DY-CWRDD, CEFN. — *Gwyl De.*—Cynnaliwyd gwyl dê flynyddol y capel uchod dydd Iau, Medi 15. O herwydd fod yr wyl hon mor fuan ar ol y gymmanfa fawr a gafwyd yn Pontsarn ddechreu mis Awst diweddaf, nid oedd mor llewyrchus ag arferol, ond serch hyny, cyfranogodd dros 200 o'r danteithion a ddarparesid. Yn yr hwyr, cafwyd cyfarfod cymmysg o adrodd a chanu, pryd y cymmerwyd y gadair gan Mr. Lewis Lewis. Aeth pob peth yn mlaen yn ddymunol.

SECT NEWYDD.—Mae sect newydd arall wedi codi yn Lloegr, yn dwyn llawer o debygrwydd yn rhai pethau i'r *Salvation Army*. Baich eu pregethau yw, Byddwch yn lan. Peidiwch dysgwyl oddiwrth ereill, ond byddwch yn lan eich hunain. Ymdrechwch eich hunain. Calon lan, tafod glan, ymddygiad a bywyd glan yw y pethau i ymdrechu am danynt. Duw yn rhwydd iddynt.

MAE perchenogion y *Newcastle Chronicle* wedi gwneuthur "*Sunday Census*" yn Newcastle a Gateshead. Allan o boblogaeth o 214,649, dim ond 8,486 oedd yn yr Eglwysi, tra'r oedd 20,309 yn y capelau. Mewn 30 mlynedd mae y boblogaeth wedi cynnyddu cau mil, ac yn y cyfamser mae mynychwyr yr Eglwys wedi lleihau 299, tra mae mynychwyr y capelau annghyddfurfiol wedi cynnyddu 6865.

CAERONEN.—Bu plant yr Ysgol Sul yn y lle uchod yn edrych yn y blaen yn awyddus eleni am y *trip* addawedig iddynt gyda'r trên i Aberystwyth. Ond os y plant oedd yn disgwyl eleni, nid y plant yn unig fydd yn disgwyl am *drip* cyffelyb y flwyddyn nesaf. Ar y dydd pennodedig, yr oedd y rhan fwyaf o aelodau yr Ysgol yn *station* Llanbedr mewn amser, a'r plant mawr mewn modd canmoladwy yn gofalu am y plant bach. Yr oedd yr hin ar y pryd dipyn yn fygythiol, ond erbyn cyrhaedd Aberystwyth, yr oedd yr hin yn braf iawn, a pharhaodd felly drwy'r dydd. Y peth cyntaf 'nawr oedd edrych am westdy cyfleus i'r *ladies* serchog a charedig i gael gwneyd tê gyda'r deisien frau, &c., oedd yn y basgedi. Cawd gafael ar y tŷ, a'r canlyniad oedd, pryd o dê gwerth galw pryd arno. Ar ol hyn aeth pob un i fwynhau ei hun yn ei ffordd ei hun hyd chwech yn yr hwyr, pryd y dychwelasom. Pwy oedd yn talu y treuliau? Nid y fi, na chybyddion, na dynion diofal am lwyddiant yr Ysgol Sul. Cymmerodd yr uchod le ar yr 21ain o Fedi.

ERLIDIGAETH.—Barna rhai fod erlidigaeth yn dda. Gwaed y saint yw hâd yr Eglwys. Mae y *Salvation Army* wrth geisio diwygio a gwella y bobl, wedi tynu digofaint rhai, ac y maent yn gorfod dyoddef yn dost yn rhai manau. Deallwn hefyd fod un o'n gweinidogion ninau, y Parch. C. J. Street, M.A., wedi cynhyrfu bustl rhywrai. Ei drosedd ef yw ceisio dwyn diwygiad mewn cyssylltiad ag angladdau, ac y mae wedi llwyddo i greu

llawer o gydymdeimlad yn ei ymdrechion. Claddwyd aelod parchus o'i gynnulleidfa yn ddiweddar, ac yn ei hangladd yr oedd y presenolion wedi ymwrthod ag arferion a defodau cyffredinol angladdau, yn cario blodeu yn eu dwylaw, ac yn eu gwisgo yn eu boneti, a bu hyny yn achos i dynu llawer iawn o wg a gwawd yr edrychwyr arnynt wrth basio yr heol. Gobeithiwn na wna ymddygiad ffyliaid eu rhwystro i gyrhaedd eu hamcan.

Priodasau.

Awst 13, 1881, yn Bron Deify, Llanbedr, Ceredigion (Eglwys Undodaidd), gan y gweinidog, y Parch. R. C. Jones, Mr. Thomas Davies, Drovers' Road, a Miss Margaret Jones, Barley Mow.

Llanbedr. L. JONES.

Hydref 5, 1881, yn yr un lle, gan y Parch. R. C. Jones, Mr. William Davies, *Stone-cutter*, a Mrs. Elizabeth Davies, *Dressmaker*, Heol-y-bont, Llanbedr.

Llanbedr. L. JONES.

Marwolaethau.

Ionawr 9, 1879, Mrs. Joan Lewis, Welsh Harp, Trecynon, Aberdar, yn 84 oed. Pregethwyd gan R. J. J. oddiwrth Esaiah xliii. 2, "Pan elych drwy y dyfroedd," &c.

Ebrill 14, 1879, William Jenkin, Morris Run, Teioga Co., Pa., U.S., dosparthwr yr YMOFYNYDD, gynt un o ddiaconiaid H. D. C., Aberdar, yn 62 oed. Cyfaill ffyddlon gyda'r achos Undodaidd, a dyn mor ddiniwed ag a sangodd mewn esgid.

Ebrill 28, 1879, David Jones, Saer Maen, Llettytwpa, plwyf Llanbedr, Pont Stephen, sir Aberteifi. Mab ydoedd ef i'r diweddar hen batriarch duwiolfrydig John Jones, neu fel y gelwid ef yn gyffredin *Jack y Masiwn*, yr hwn fu am flynyddoedd yn un o hen golofnau cadarnaf Eglwys Capel-y-groes. Bu gwrthddrych ein nodiadau yn mynychu Ty'n'rheol cyn adeiladu capel Bron Deifi, a daliodd ati yn gysson trwy weddill byr ei oes. Ymdrechodd ddyfod i'r Ysgol Sul ac i'r cwrdd bob Sabboth braidd pan yn weddol iach hyd nes gorddiweddwyd ef gan afiechyd, ac y methodd yn lan. Ymunodd â'r eglwys yn Ty'n-'rheol, Ram. Yr oedd yn Undodwr trwyadl o ben a chalon. Dyoddefodd boenau anaele yn aml am flynyddoedd ar hyd ei oes gan glefyd blin, yr hwn a derfynodd ei fywyd. Hunodd yn 78 mlwydd oed. Bydded i'w weddw ymgyssuro yn yr addewid fod "Barnwr y weddw a Thad yr amddifaid etto yn fyw." Claddwyd ef yn mynwent eglwys Bron Deifi, Llanbedr.—TEIFIWYSON.

Mehefin, 1879, Thomas Williams, Gilfinpark, Cellan, ger Llanbedr, yn 56 oed. Claddwyd yn mynwent Caeronen.

Mehefin 30, 1880, Mrs. Davies, Trebanau, Cellan, yn 59 mlwydd oed. Merch ydoedd Mrs. Davies i'r diweddar Mr. D. Lewis, Pontfanog, a chwaer i'r diweddar Mr. Jno. Lewis, Tyddyndu, yr hwn fu am lawer o flynyddoedd yn wasanaethgar i bell ac agos fel *bone-setter*, &c. Gosodwyd hithau yn oruchwiliwr ar lawer o dalentau, ac hyderwn eu bod wedi ei chael yn ffyddlawn. Yr oedd yn feddianol ar alluoedd meddyliol cyflym neillduol. Cafodd fanteision addysg idd eu dadblygu, ac yr oedd ganddi yn ychwanegol at hyn ran helaeth o bethau da y byd hwn. Ond er yr oll o hyn, gorfod arni yfed yn helaeth o ddyfroedd Mara. Cafodd ei phoeni yn ddirfawr am flynyddoedd gan *rheumatism*, ond dyoddefodd yr oll yn amyneddgar, a gobeithio ei bod cyn hyn wedi teimlo fod pob peth wedi bod yn cydweithio er ei daioni. Yr oedd yn aelod ffyddlawn o eglwys Caeronen, ac yr oedd llwyddiant yr achos yn y lle yn agos at ei chalon. Ar ddydd ei hangladd, daeth torf luosog o gyfeillion a pherthynasau i hebrwng gweddillion marwol ein chwaer i dŷ ei hir gartref yn mynwent Dihewydd. Cyn cychwyn o'r tŷ, gweinyddwyd gan weinidog Caeronen.

Barddoniaeth.

GORPHENIAD YR HAF.

Yr hydref ddaeth, fe ddarfu'r haf,
A'r tymhor braf orphenodd,
A blodau glwys pob bryn a dol,
Yn raddol a ddiflanodd.
Y rhosyn brith a welwyd gynt,
Gan ddeifiol wynt wnaeth wywo,
A sibrwd wnaeth "Fe ddarfu'r haf
A'r tymhor braf aeth heibio."

A dail y coed yn cwympo sydd,
Mae golwg brudd drwy'r gelltydd,
Gorchuddir gwyneb llawer man
O'n llwybrau a'n heolydd;
A'r ddeilen fach yn swn y glust,
A dd'wed yn drist "Rhaid 'mado—
Rhaid gado'r gwydd, beth arall wnaf,
Y tymhor haf aeth heibio."

Cerddorion cor y wig yn llu
Ro'es fyny eu perleisiau,
Ni chlywir braidd yr un o rhai'n
Yn chwareu'u cain delynau;
A iaith pob un o'u teulu hwy,
"Nis gallaf mwy ymbyncio,
Yr hydref ddaeth fe ddarfu'r haf,
A'r tymhor braf aeth heibio."

'Roedd anian gynt yn brydferth iawn
A'i gwisg yn llawn coronau,
Yr ardd oedd fel pe wedi cael
Ei thaenu'n hael â pherlau;
Ond tlysni'r blodau aeth dan len,
Plygasant ben i wywo;
A'r unig un atebiad gaf,
"Y tymhor haf aeth heibio."

Mae'n bwys i ninau gofio sydd
Yn nyddiau'n hafddydd hyglod,
Nad yw ein tymhor is y rhod,
Ond un yn bod i ddarfod;
Yn dra dibwys mae llawer un
Yn gwneyd ei drin a'i dreulio,
Yn niwedd oes yn llesg a chlaf,
Yn cwyno i'r haf fyned heibio.

CRIBINOG,
Alltfawr, Llanbedr. Sef D. Thomas.

CARIAD CARTREF.

Y mae harddwch ar bob llaw
Pan fo cariad gartref;
Yn mhob sain llawenydd ddaw
Pan fo cariad gartref;
Harddwch a chyfiawnder sy'n
Gwenu'n hyfryd ar bob tu,
Amser red yn beraidd li',
Pan fo cariad gartref.

Nefoedd dirion wena fry
Pan fo cariad gartref,
Ddae'r fydd lawn o gariad cu,
Pan fo cariad gartref;
Canu'n well wna'r nant i maes,
Bydd dysgleiriach awyr lâs,
Gwena Un ar orsedd gras,
Pan fo cariad gartref.

Yn y bwthyn lloniant sy'
Pan fo cariad gartref;
Cynnen, cas, ni flinant ni,
Pan fo cariad gartref;
Wrth ein traed y blodeu dardd,
Daw'r holl ddae'r yn beraidd ardd,
Bywyd oll a hyfryd chwardd
Pan fo cariad gartref.

DYMUNIAD.—(CYFIEITHAD.)

(AR ENEDIGAETH Y BACHGEN.)

P'le bynag cartrefoch, boddlonrwydd f'o'ch rhan,
A chariad, fel iorwg, amgylcho y fan,
Pob boreu llon, gwridog, llawn heddwch, dihaint,
Ei nawdd roed i'ch bwthyn, gynnyddo bob braint.

Boed llewndid glân siriol i drwsio'r man tlws,
Na ddeued un gofid, byth, bythol i'ch drws,
Coroner eich gonest ymdrechion â llwydd,
Byw'n hapus heb eisieu, a "Duw i chwi'n rhwydd."

Bob awr, ar eich bwthyn bach, cryno, fel gwlith
Disgyned yr hapus gysuron hyn, byth,—
Dymuniad da ydyw, llwyr rydd o bob twyll,
Dymuniad gwir gyfaill, mewn cariad a phwyll.

Aberdar. CYNONWYSON.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.